PWYLLGOR PENODI A

DYDD MAWRTH, 2 GORFFENNAF 2024

PRESENNOL Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	J.M. Charles	D.M. Cundy	G. Davies
H.A.L. Evans	L.D. Evans	P. Hughes-Griffiths	G.H. John
A.C. Jones	D. Jones	H.B. Shepardson	E.G. Thomas
M. Thomas			

Cynghorwyr (Yn rhithwir):
K. Madge

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
W. Walters, Prif Weithredwr
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
S. Dougherty, Ymgynghorydd Dylunio Trefniadaeth
A. Machin, Rheolwr Dysgu a Datblygu
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Stuart, Uwch-Bartner Busnes (Adnoddau Dynol)
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 1.00 - 3.30 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Curry, A. Davies, T. Higgins ac A. Lenny.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 3 TACHWEDD 2022

PENDERFYNWYD llofnodi yn gofnod cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd, 2022.

4. NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIADAU SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATERION HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf sef gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr oedd yn cynnig am swydd gan yr Awdurdod.

5. DERBYN NODIADAU GWEITHREDU CYFARFOD O'R PANEL RHESTR FER A GYNHALIWYD AR 10 MEHEFIN 2024

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol wrth y Pwyllgor, yn dilyn cyfarfod y Panel Rhestr Fer ar 10 Mehefin, fod proses hidlo bellach wedi'i chynnal ac, o ganlyniad, roedd nifer yr ymgeiswyr a gyflwynwyd am gyfweliad y diwrnod hwnnw wedi gostwng o bedwar i ddau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Panel Rhestr Fer oedd wedi ei gynnal ar 10 Mehefin, 2024.

6. GWYBODAETH CAIS

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y wybodaeth am y cais a ddosbarthwyd gyda'r agenda.

7. DERBYN CYFLWYNIADAU A CHYFWELD YR YMGEISWYR AR Y RHESTR FER AR GYFER SWYDD CYFARWYDDWR ADDYSG, GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD AC YSTYRIED GWNEUD PENODIAD.

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y broses ddethol hyd yn hyn a'r drefn a awgrymwyd ar gyfer y cyfarfod. Nododd y Pwyllgor y byddai dau o'r pedwar ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael cyfweliad.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y ddau ymgeisydd a chafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeiswyr.

Cafodd y Pwyllgor adborth gan swyddogion mewn perthynas â'r broses recriwtio ac asesu a'i gasgliadau. Yn dilyn trafodaeth -

PENDERFYNWYD penodi O. Lloyd yn Gyfarwyddwr Addysg, Plant a Gwasanaethau Teuluol.

[Galwyd O. Lloyd yn ôl i'r cyfarfod, a dywedodd ei fod yn derbyn y swydd.]

_____ _____

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf